AR GYFER BUSNES
CAMBRIA
FOR BUSINESS

WWW.CAMBRIA.AC.UK/BUSNES



Prentisiaethau
Apprenticeships

# CANLLAW

## I GYFLOGWYR AM BRENTISIAETHU

### PRENTISIAETH DECHNEGOL LEFEL 3 MEWN ADEILADU

# CROESO

**Mae'r brentisiaeth hon wedi'i chynllunio ar gyfer dysgwyr sydd yn gweithio yn y diwydiant adeiladu a'r amgylchedd adeiledig mewn swyddogaeth dylunio, goruchwylio safle neu beirianneg sifil ac sy'n dymuno ennill cymhwyster cenedlaethol cydnabyddedig i ddatblygu eu gyrfaoedd gan symud ymlaen i lefel 4 HNC neu raglenni israddedig.**

Mae timau asesu Cambria ar gyfer Busnes yn gweithio'n agos gyda chwmnïau rheolwyr, adrannau ac unigolion i deilwra asesiadau i gyd-fynd â gwaith penodol a swydd y gweithiwr.

## GOFYNION LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER ARIANNU PRENTISIAETH

Cyn cofrestru ar gyfer prentisiaeth, cynhelir ymholiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer eich cwmni i gadarnhau fod polisïau statudol Iechyd a Diogelwch ar waith.

Byddwn yn monitro Iechyd a Diogelwch eich prentis yn rheolaidd trwy gydol y rhaglen hyfforddi. Bydd yr asesydd yn y gwaith yn adolygu'r hyfforddiant a'r lleoliad gwaith bob 61 diwrnod o leiaf. I gyfuno'r adolygiad gyda'r NVQ yn y gwaith, mae hyn yn aml yn cael ei gynnal yn fisol. Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi cyfle i gyflogwyr gynnig sylwadau a bod yn rhan o hyfforddiant eich dysgwr a gwirio ei gynnydd.

## GOSOD TARGEDAU NVQ/QCF

Yn ystod pob adolygiad prentis, bydd yr asesydd yn y gwaith yn cadarnhau targedau a gytunwyd arnynt gyda'r prentis ar gyfer beth y dylid ei gwblhau erbyn eu hymweliad nesaf. Bydd hefyd yn rhoi amser i'r asesydd i adolygu a rhoi adborth ar unrhyw waith asesu sydd wedi cael ei gyflwyno a chynllunio rhagor o asesiadau ar gyfer y dyfodol.



## PA GYMWYSTERAU YN Y GWAITH FYDD YN ADDAS AR GYFER FY MHRENTIS?

Byddwn yn holi ynghylch natur y brentisiaeth ac os oes angen, byddwn yn ymweld â'r safle er mwyn deall y gwaith y mae'r prentis yn ei wneud.

Dylid dewis cymwysterau a llwybrau a fydd yn addas i ofynion y brentisiaeth ac yn adlewyrchu gwaith y dysgwr yn gywir, fel ei fod yn gallu dangos ei gymhwysedd.

## A FYDD FY MHRENTIS YN GALLU CAEL RHAGOR O HYFFORDDIANT YN YSTOD EI BRENTISTH?

Wrth gwrs, ond rydym yn cynghori y dylai'r hyfforddiant fod yn gymesur, fel bod y prentis yn gallu cwblhau gofynion y brentisiaeth bresennol.

## BETH YW PRENTIS DA?

Unigolyn llawn cymhelliant, brwdfrydig, sy'n gweithio'n galed, ac yn barod i ddysgu.

## CYMORTH GAN Y DARPARWR HYFFORDDIANT

Bydd prentisiaid yn cael cymorth parhaus gan staff y coleg, gydag arweiniad un i un penodol a chymorth gan eu Hasesydd yn y Gwaith.

## PA GYMORTH SYDD ANGEN I MI EI ROI I FY MHRENTIS?

Mae angen i brentisiaid gael anogaeth a chyfranogiad gan eu cyflogwr drwy gydol y broses hyorddi ac adolygu. Bydd hyn yn sicrhau bod fod y prentis yn cael y cyfle i weithio mewn meysydd gwahanol gyda chydweithwyr gwahanol i ehangu ei brofiad dysgu ymhellach. Bydd y berthynas hon gyda phob parti yn cynorthwyo'r prentis mewn llwybr gyrfa strwythuredig.

Mae'n bwysig bod eich prentis yn cael amser a chymorth i fodloni terfynau amser yr hyorddiant, ei fod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfyniadau sy'n eeithio ar ei waith a'i hyorddiant, ac yn cael ei annog yn gyredinol i gymryd rhan ym mhob agwedd ar ei fywyd gwaith. Mae hefyd yn bwysig fod cyflogwyr yn rhoi cyfle i'r prentis wneud mathau priodol o dasgau yn y gweithle, fel y gall unigolyn ddatblygu ei sgiliau a bodloni'r gofynion cymhwyster cymhwysedd yn y gweithle.

# PA GYRSIAU RYDYM YN EU CYNNIG MEWN ADEILADU TECHNEGOL YN Y GWAITH?

## Diploma BTEC Lefel 3 mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Hyd: 1 diwrnod yr wythnos yn y Coleg am 2 flynedd (35 diwrnod yn y calendr academaidd)

Mae'r cymhwyster BTEC hwn yn cyfuno pynciau academaidd ac ymarferol i roi cyflwyniad cyffredinol i faterion ac amcanion ym maes prosiectau dylunio ac adeiladu adeiladau a pheirianneg sifil. Mae'r meysydd astudio yn cynnwys meysydd mor amrywiol â gwyddoniaeth, technoleg, dylunio, a rheoli, sy'n cael eu hategu gan waith labordy, gwaith maes tirfesur, lluniadu a chyfrifiadura.

## Mae pob prentisiaeth yn cynnwys yr unedau sgiliau hanfodol a ganlyn:

- Asesiadau Cychwynnol a Diagnostig

**Sgiliau Hanfodol mewn:**

- Cymhwyso Rhif Lefel 2
- Cyfathrebu Lefel 2

(Gellir defnyddio TGAU Mathemateg a Saesneg TGAU A-C Neu lefelau 4-9 i gael eich eithrio o hyn ac fe'u hargymellir fel gofynion mynediad y brentisiaeth.)

**Peidiwch â phoeni os nad ydych yn gweld cwrs sy'n addas i anghenion eich sefydliad chi yma - efallai gallwn addasu'r hyfforddiant i ateb eich gofynion penodol.**

## Cymhwyster NVQ - Lefel 3 yn y gwaith

Hyd: 2 flynedd gan gysylltu â'r asesydd yn y gwaith o leiaf bob 61 diwrnod

### Llwybr 1 – Gwaith Contractio ar gyfer Adeiladu

Ar gyfer rheolwyr safleoedd dan hyfforddiant sydd ynghlwm â rhedeg safleoedd adeiladu o ddydd i ddydd ac sy'n gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle, rhaglennu gwaith, meithrin a chynnal perthnaseddau. Rydym yn cynnig unedau dewisol ychwanegol hefyd ar gyfer swyddi penodol: Amcangyfrif, prynu, cynllunio, syrfeo, cymorth technegol ar gyfer safleoedd a chydlynu'r dylunio.

### Llwybr 2 – Dylunio'r Amgylched Adeiledig

Ar gyfer technegwyr dylunio dan hyfforddiant sydd ynghlwm â chreu atebion dylunio, arolygon, lluniadau a pharatoi tendrau. Mae dau lwybr i ddewis ohonynt yn y llwybr hwn: Pensaernïaeth neu Beirianneg Sifil ac adeileddol.

### Llwybr 3 – Peirianneg Sifil i Dechnegwyr

Ar gyfer peirianwyr sifil dan hyfforddiant sydd yn ymwneud â thechnegau, gweithdrefnau ymwneud â thechnegau, gweithdrefnau a dulliau ar gyfer tasgau peirianneg sifil; llunio a chwblhau atebion peirianneg sifil; rheoli ac arwain mewn peirianneg sifil; barn annibynnol a chyfrifoldeb mewn peirianneg sifil; ymwybyddiaeth fasnachol mewn peirianneg sifil; iechyd, diogelwch a lles ar gyfer peirianwyr sifil; datblygu cynaliadwy mewn peirianneg sifil; sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu mewn peirianneg sifil; ymrwymiad proffesiynol i beirianwyr sifil.